COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

Comisiwn Ffiniau
Llywodraeth Leol
i Gymru

Local Government
Boundary Commission
for Wales

AROLWG O FFINIAU CYMUNEDOL YM MWRDEISTREF SIROL CONWY

ADRODDIAD A CHYNIGION

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

AROLWG O FFINIAU CYMUNEDOL YM MWRDEISTREF SIROL CONWY

ADRODDIAD A CHYNIGION

1. CYFLWYNIAD

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

3. CWMPAS A NOD YR AROLWG

4. CYNIGION DRAFFT

5. CYNRYCHIOLAETHAU A DDERBYNIWYD MEWN YMATEB I'R CYNIGION DRAFFT

6. ASESIAD

7. CYNIGION

8. TREFNIADAU ÔL-DDILYNOL

9. CYDNABYDDIAETHAU

10. Y CAMAU NESAF

Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
CAERDYDD
CF10 3BE
Rhif Ffôn: (029) 2039 5031
Rhif Ffacs: (029) 2039 5250
E-bost: cflll.cymru@cymru.gsi.gov.uk
www.cflll-cymru.gov.uk

Brian Gibbons AC
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cynulliad Cymru

1. CYFLWYNIAD

1.1 Rydym ni, Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru (y Comisiwn), wedi cwblhau'r arolwg o ffiniau cymunedol ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn unol â'ch Cyfarwyddyd i ni dyddiedig 16 Hydref 2007 (Atodiad 1).

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Cynigiwn:

- fod y ffin rhwng Cymuned Llandudno a Chymuned Conwy yn cael ei hadlinio i ddilyn y ffin a ddangosir mewn gwyrdd ar y map yn Atodiad 3.

3. CWMPAS A NOD YR AROLWG

3.1 Diben yr arolwg yw ystyried a ddylai'r Comisiwn, er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, gynnig newidiadau i'r ffiniau cymunedol presennol. Mae'r arolwg yn cael ei gynnal o dan ddarpariaethau Adran 55 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (y Ddeddf).

Gweithdrefn

3.2 Mae Adran 60 y Ddeddf yn nodi canllawiau gweithdrefnol y dylid eu dilyn wrth gynnal arolwg. Yn unol â'r arweiniad hwnnw, ysgrifennom ar 25 Hydref 2007 at bob Cyngor Cymuned a Thref ym Mwrdeistref Sirol Conwy, yr Aelod Seneddol ar gyfer yr etholaethau lleol, Aelodau'r Cynulliad ar gyfer yr ardal, a phartïon eraill â diddordeb i roi gwybod iddynt am ein bwriad i gynnal yr arolwg a gofyn am eu safbwyntiau rhagarweiniol. Fe wnaethom ni hefyd gyhoeddi ein bwriad i gynnal yr arolwg mewn papurau newydd lleol sy'n cael eu dosbarthu yn yr ardal a gofyn i'r Cynghorau arddangos hysbysiadau cyhoeddus. Rhoddwyd hysbysiad am gychwyn yr arolwg a'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cynrychiolaethau (10 Ionawr 2008) ar wefan y Comisiwn.

4. CYNIGION DRAFFT

4.1 Mewn ymateb i'n gwahoddiad gwreiddiol, cawsom gynrychiolaethau gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy; Cyngor Cymuned Abergele, Cyngor Tref Bae Colwyn, Cyngor Tref Conwy, Cyngor Tref Llandudno, Gareth Jones AC, y Cynghorydd Emlyn Thomas (Adran Etholiadol Trefriw) a Grŵp Gweithredu Dolwyd. Yn ein Cynigion Drafft a gyhoeddwyd ar 17 Gorffennaf 2008, ystyriom y materion a godwyd yn y cynrychiolaethau.

4.2 Gwnaethpwyd awgrymiadau ar gyfer newidiadau i ffiniau cymunedol yn yr ardaloedd canlynol: Conwy a Llandudno, a Dolgarrog a Threfriw.

Conwy a Llandudno

4.3 Ystyriasom y newid i'r ffin a awgrymwyd gan Gyngor Tref Llandudno, gan nodi eu barn y byddai'r newid o fantais i reolaeth a gweinyddiaeth y rhwydwaith llwybrau troed yn yr ardal. Yn dilyn ymweliad safle â'r ardal, bu modd i ni gadarnhau y byddai'r ffin awgrymedig yn ymgorffori nifer o lwybrau troed yn ardal Tref Llandudno ac y byddai'n datrys anghysondeb bychan yn y ffin sydd wedi codi ers adeiladu'r A470. Fe wnaethom gofnodi bod rhan o lwybr troed, yn rhan orllewinol bellach eu ffin arfaethedig, yn parhau yn ardal Cymuned Conwy. Felly, gwnaethom gynnig gwneud newid bychan i'r ffin awgrymedig wrth y pen gorllewinol i sicrhau bod llwybr troed cyfan yn cael ei ymgorffori yn ardal Tref Llandudno.

4.4 Nododd y Comisiwn, fodd bynnag, fod Cyngor Tref Conwy yn gwrthwynebu'r cynnig gan ei fod yn ystyried na fyddai'r newid yn cyflawni unrhyw ddiben defnyddiol ac y byddai'n achosi colli Coedwig Marl o'i ardal. Ar ôl canfod maint Coedwig Marl, gwnaethom newid i'r ffin arfaethedig er mwyn sicrhau bod y cyfan o Goedwig Marl yn parhau yn ardal Tref Conwy.

4.5 Wrth ran ddwyreiniol ei ffin awgrymedig, mae Cyngor Tref Llandudno yn amlygu y byddai'r ffin arfaethedig yn ymgorffori sawl eiddo, y mae'n eu hystyried yn rhan o bentref Bryn Pydew, sydd ar hyn o bryd yn ardal Cyngor Tref Conwy. Yn ystod ein hymweliad safle penderfynom fod yr eiddo hyn gerllaw pentref Bryn Pydew a bod yr awgrym i ymgorffori'r eiddo hyn yng Nghymuned Llandudno yn ymddangos yn rhesymegol ac yn deilwng.

4.6 Ar sail y wybodaeth a gawsom, roeddem yn ystyried felly y byddai rhai newidiadau'n ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Cynigiwn newidiadau i'r ffin rhwng Cymuned Conwy a Chymuned Llandudno.

Dolgarrog a Threfriw

4.7 Ystyriasom y wybodaeth a ddarparwyd gan Mr Iwan Davies, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'r Cynghorydd Emlyn Thomas mewn perthynas â'r anawsterau a gafwyd gan Gyngor Cymuned Dolgarrog a'r awgrym i gyfuno Cynghorau Cymuned Dolgarrog a Threfriw. Fe wnaethom hysbysu Cynghorau Cymuned Dolgarrog a Threfriw o'r awgrym hwn a gwahodd eu barn ond ni chafwyd ymateb cyn cyhoeddi ein cynigion drafft. Rydym hefyd wedi ystyried y gynrychiolaeth bellach a gafwyd gan y Cynghorydd Thomas sydd o'r farn na fyddai trigolion Dolgarrog a Threfriw o blaid y cyfuno.

4.8 Sylwom fod y ddwy gymuned yn ffurfio Adran Etholiadol Trefriw o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac ymddengys fod ganddynt nodweddion cymdeithasol, economaidd a thopograffigol yn gyffredin. Nodom hefyd yn yr Etholiadau Cyngor

Cymuned diweddar mai 6 ymgeisydd yn unig a gafwyd am y 9 sedd ar Gyngor Cymuned Dolgarrog, 2 ymgeisydd ar gyfer yr 8 sedd yn ward Trefriw ac 1 ymgeisydd ar gyfer 2 sedd yn ward Llanrhychwyn ar Gyngor Cymuned Trefriw. O ystyried yr anawsterau a adroddwyd i ni o ran cynnal hyfywedd Cyngor Cymuned Dolgarrog, mae'n ymddangos i ni fod yr awgrym i ffurfio cymuned newydd o'r ddwy gymuned bresennol yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Cynigiwn felly fod cymuned newydd i'w galw dros dro yn gymuned Trefriw yn disodli cymunedau presennol Dolgarrog a Threfriw.

4.9 Ni wnaethom unrhyw gynigion am newidiadau i weddill yr ardaloedd cymunedol ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

5. CYNRYCHIOLAETHAU A DDERBYNIWYD MEWN YMATEB I'R CYNIGION DRAFFT

5.1 Mewn ymateb i'n hadroddiad ar y Cynigion Drafft, cawsom gynrychiolaethau gan: Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Tref Conwy, Cyngor Cymuned Dolgarrog, Cyngor Tref Llandudno, Elfyn Llwyd AS, Gareth Jones AC, y Cynghorydd PC Evans (Adran Etholiadol Tudno), y Cynghorydd R A Hughes (Adran Etholiadol Tudno), y Cynghorydd Emlyn Thomas (Adran Etholiadol Trefriw), y Cynghorydd Rita Jones (Dolgarrog), y Cynghorydd C Jones (Dolgarrog), y Cynghorydd David Williams (Dolgarrog), y Cynghorydd J Butters (Trefriw), Cymdeithas y Crwydrwyr, Cyfeillion Ysgol Dolgarrog, Rheolwyr Gyfarwyddwyr Ainscough-Johnston, 114 o drigolion (Dolgarrog a Threfriw), deiseb a lofnodwyd gan 41 o drigolion Trefriw a deiseb a lofnodwyd gan 223 o drigolion Dolgarrog. Gellir gweld crynodeb o'r cynrychiolaethau hyn yn Atodiad 2.

5.2 Ar ôl y gwahoddiad oddi wrth y cynghorydd Emlyn Thomas, fe'm cynrychiolwyd mewn cyfarfod yn Nhrefriw ar 22 Hydref 2008 gan ein cadeirydd, Mrs Susan Smith ynghyd â'r Dirprwy Ysgrifennydd. Mynychwyd y cyfarfod gan gynrychiolwyr o Gynghorau Cymuned Trefriw a Dolgarrog ac aelodau'r cyhoedd o'r ddau bentref (cyfanswm o tua 70 o bobl). Esboniodd siaradwyr yn y cyfarfod fod y ddau Gyngor yn awr yn gweithredu gyda chyflenwad bron yn llawn o Gynghorwyr, a bod materion ar wahân a gwahanol ar gyfer pob ardal. Y mae pobl o'r farn bod eisiau cynghorau cymuned ar wahân ym mhob aradal er mwyn delio â nhw. Roedd yn glir mai barn unfrydol y cyfarfod oedd nad oeddem am weld y ddau gyngor yn aruno.

5.3 Ym mis Rhagfyr 2008, cawsom wybod bod anawsterau eto yng Nghyngor Cymuned Dolgarrog gydag ymddiswyddiadau pellach. Cawn ar ddeall fod yr anawsterau hyn yn parhau.

6. ASESIAD

Conwy a Llandudno

6.1 Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe wnaethom gynnig newid i'r ffin rhwng Cymunedau Conwy a Llandudno.

6.2 Mewn ymateb, nododd Cyngor Tref Conwy eu bod yn gwrthwynebu unrhyw newidiadau i'r ffin o hyd. Roedd Cyngor y Dref yn poeni'n benodol am y newid arfaethedig i'r ffin rhwng ward Deganwy Cymuned Conwy a ward Tudno Cymuned Llandudno. Roeddent yn teimlo y byddai'r newid arfaethedig yn effeithio ar allu Cyngor Tref Conwy i ddylanwadu ar benderfyniadau cynllunio posibl a allai gael effaith uniongyrchol ar berchnogion eiddo yn ward Deganwy. Serch hynny, barn Cyngor Tref Llandudno oedd bod yr ardal a effeithir yn rhan o ardal a ddynodwyd yn lletem las, lle mae rhagdybiaeth yn erbyn datblygu. Roeddent o'r farn na fyddai newid y ffin yn atal y naill Gyngor Tref rhag rhoi sylw ar geisiadau cynllunio i'r Awdurdod Cynllunio.

6.3 Nodwyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn eu cynlluniau datblygu wedi dynodi'r ardal i'r gogledd o'r tai yn ward Deganwy fel Rhwystr Glas. Felly, ystyriwn na fydd materion datblygu neu benderfyniadau ynghylch cynllunio yn cael effaith ar ein penderfyniad o ran ffin y gymuned yn yr ardal benodol hon. Byddai'r newid bychan y cynigasom ei wneud i'r ffin yn yr ardal hon yn ein hadroddiad Cynigion Drafft yn sicrhau bod y llwybr troed yn cael ei gynnwys yn gyfan gwbl o fewn Cymuned Llandudno. Rydym o'r farn o hyd bod ein cynnig i newid y ffin rhwng ward Deganwy Cymuned Conwy a ward Tudno Cymuned Llandudno yn un a ffefrir gennym yn nhermau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

6.4 Yn ardal ward Pensarn yng Nghymuned Conwy, a gynigir yn ein cynigion drafft fel ardal y dylid ei symud i ward Penrhyn Cymuned Llandudno, caiff Cyngor Tref Conwy ar ddeall nad oes llwybrau troed cyhoeddus sy'n rhedeg drwy'r ardal. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy o'r farn y gallai'r ffin a gynigwyd ar gyfer yr ardal hon arwain at ddryswch. Ystyriasant y ffaith y byddai rhai eiddo a fyddai'n cael ei symud i Landudno ymhellach i ffwrdd o Fryn Pydew (yn Llandudno) nag eiddo arall a fyddai'n aros yng Nghonwy.

6.5 Parhaodd Cyngor Tref Llandudno i gefnogi'r cynnig ar gyfer yr ardal hon gan yr oeddent o'r farn (yn eu cynrychiolaeth gychwynnol) y byddai'n ymgorffori nifer o eiddo i mewn i Gymuned Llandudno, yr oeddent yn ei hystyried fel rhan o bentref Bryn Pydew. Cefnogwyd newid ffin ardal Bryn Bydew gan y Cynghorydd P C Evans. Ystyriasom y pwynt a wnaethpwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy y byddai'r ffin arfaethedig yn peri dryswch. Serch hynny rydym o'r farn bod y ffin arfaethedig yn llai dryslyd na'r ffin bresennol wrth ddiffinio rhaniad clir y ddwy ardal gymunedol. O achos natur yr ardal o ran lleoliad yr eiddo a'r modd y maent wedi'u grwpio, yn amlwg mae'n anodd diffinio ffin gymunedol 'delfrydol' yn yr ardal hon. Serch hynny, rydym o'r farn bod y newid arfaethedig yn welliant i'r ffin bresennol, gan ei fod yn cynnwys yng Nghymuned Llandudno nifer o eiddo sydd â chysylltiadau lleol â'r gymuned yn ein tyb ni. Felly, rydym yn ystyried y byddai ein newid arfaethedig i'r ffin yn yr ardal hon yn ffafriol yn nhermau llywodraeth leol

effeithiol a chyfleus a bod y ffin arfaethedig hefyd yn dilyn nodweddion topograffigol hawdd eu hadnabod.

6.6 O ystyried y newidiadau arfaethedig i'r ffin i'r dwyrain o Neuadd Bodysgallen, awgrymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy y dylai'r ffin fod i'r de o'r trac er mwyn caniatáu i ran o Hawl Dramwy Gyhoeddus (PROW) 63 fod yn Llandudno. Cefnogwyd yr awgrym hwn hefyd gan Gyngor Tref Llandudno a'r Cynghorydd Evans. Mae hefyd yn cyd-fynd â'r farn a leisiwyd gan Gymdeithas y Crwydrwyr. Ystyriasom y cynrychiolaethau hyn ac rydym wedi canfod bod modd defnyddio nodweddion topograffig y gellir eu hadnabod i'r de o'r llwybr troed er mwyn ffurfio ffin addas. Felly, rydym wedi gwneud newid bychan i'n ffin arfaethedig ar gyfer yr ardal hon.

6.7 Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael ynghylch y ffin rhwng cymunedau Conwy a Llandudno, rydym yn argymell y newid i'r ffin a nodir mewn gwyrdd ar y map yn Atodiad 3.

Dolgarrog a Threfriw

6.8 Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, gwnaethom nodi ein pryderon ynghylch y modd y gweithredir Cyngor Cymuned Dolgarrog a Chyngor Cymunedol Trefriw, a chynigasom aruno'r ddwy gymuned bresennol er mwyn ffurfio cymuned unigol. Rydym wedi nodi mewn ymateb i'n hadroddiad Cynigion Drafft ein bod wedi derbyn nifer fawr o sylwadau oddi wrth y ddwy gymuned, gyda phob un ohonynt yn mynegi gwrthwynebiad i'n cynnig.

6.9 Sylwom ar yr amser a'r ymdrech a roddwyd gan gynrychiolwyr etholedig yn yr ardal i hysbysu trigolion lleol o'n cynigion ac i'w hannog i roi eu barn i ni. Roedd ein cyfarfod â thrigolion lleol hefyd yn ddefnyddiol wrth i ni ystyried y mater hwn. Siom oedd clywed am yr anawsterau parhaus yn Nolgarrog. Wedi ystyried barn y trigolion a'r modd y gweithredir y ddau Gyngor Cymunedol ar hyn o bryd, rydym yn awr o'r farn na fyddai'n ffafriol nac er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus i newid trefniant presennol y ddwy ardal hyn. Felly, nid ydym yn gwneud unrhyw gynigion ynghylch Cymunedau Dolgarrog a Threfriw. Bydd yn fater i Gyngor Conwy benderfynu p'un ai dylid datgysylltu Cyngor Cymuned Dolgarrog os na fydd yn bosibl sefydlu cyngor gweithiol.

7. CYNIGION

7.1 Wedi ystyried y dystiolaeth a oedd ar gael i ni cynigiwn y dylid adlinio ffiniau Cymunedau Conwy a Llandudno yn yr ardal dan sylw i ddilyn y ffiniau a ddangosir mewn gwyrdd ar y map yn Atodiad 3.

7.2 Gellir archwilio mapiau manwl ar raddfa fwy sy'n dangos y ffiniau newydd arfaethedig yn swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac yn swyddfa'r Comisiwn yng Nghaerdydd.

8. TREFNIADAU ÔL-DDILYNOL

8.1 Wrth ystyried y newidiadau amrywiol i'r ffiniau cymunedol, roedd hefyd yn ofynnol i ni ystyried yr effeithiau ar y trefniadau etholiadol i gynghorau cymuned a'r prif awdurdod, a fyddai'n deillio o'r newidiadau hyn. Mae'r adran hon o'n hadroddiad yn manylu ar ein cynigion ar gyfer newidiadau ôl-ddilynol i'r trefniadau etholiadol. Yn unol ag Atodlen 11 mae gofyn i ni roi ystyriaeth briodol i'r newid yn nifer neu yn nosbarthiad yr etholwyr llywodraeth leol sy'n debygol o ddigwydd yn y cyfnod pum mlynedd union sy'n dilyn yr ystyriaeth. Ceisiom wybodaeth am y mater hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sydd wedi amcangyfrif cynnydd o 2% ar draws Conwy gyfan, er nad oes ganddynt ffigurau ar gael ar lefel yr adran etholiadol ar hyn o bryd. Rydym wedi cymryd y cynnydd hwn i ystyriaeth.

Trefniadau Etholiadol Cynghorau Cymuned

8.2 Mae Cymuned Conwy wedi'i rhannu ar hyn o bryd, at ddibenion etholiadol cymunedol, yn wardiau cymunedol Aberconwy, Castell, Deganwy, Marl a Phensarn. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a chynghorwyr ar gyfer pob ward:

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Conwy	Aberconwy	1,429	2	715
	Castell	1,944	2	972
	Deganwy	3,122	4	781
	Marl	2,890	4	723
	Pensarn	2,104	3	701
		11,489	**15**	**766**

* Etholwyr fesul Cynghorydd

8.3 O dan ein cynigion bydd ward Pensarn o Gyngor Conwy yn gostwng 10 etholwr i 2,094. Nid ydym yn ystyried bod y newidiadau hyn na'r cynnydd rhagamcanol yn nifer yr etholwyr yn gofyn am newid yn nifer y cynghorwyr na'r trefniadau ward ar gyfer Cymuned Conwy.

8.4 Mae Cymuned Llandudno ar hyn o bryd wedi'i rhannu at ddibenion etholiadol Cymunedol, yn wardiau cymunedol Craig-y-Don, Gogarth, Mostyn, Penrhyn a Thudno. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a'r cynghorwyr ar gyfer pob ward:

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C
Llandudno	Craig-y-Don	2,764	6	461
	Gogarth	2,954	6	492
	Mostyn	2,727	6	455
	Penrhyn	3,804	6	634
	Tudno	3,580	6	597
		15,829	**30**	**528**

8.5 O dan ein cynigion bydd ward Penrhyn yng Nghymuned Llandudno yn cynyddu 10 etholwr i 3,814. Nid ydym yn ystyried bod y newidiadau hyn na'r cynnydd rhagamcanol yn nifer yr etholwyr yn gofyn am newid yn nifer y cynghorwyr na'r trefniadau ward ar gyfer Cymuned Llandudno.

8.6 Mae Adran Etholiadol Penrhyn yn cynnwys ward Penrhyn o Gymuned Llandudno gyda 3,804 o etholwyr yn cael eu cynrychioli gan 2 gynghorydd. O dan ein cynigion byddai nifer yr etholwyr yn ward Penrhyn yn cynyddu 10 etholwr i 3,814. Fodd bynnag, nid ydym yn ystyried bod y newid mor sylweddol fel ei fod yn gofyn am gynnydd yn nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli'r adran etholiadol.

8.7 Mae Adran Etholiadol Pensarn yn cynnwys ward Pensarn o Gymuned Conwy gyda 2,104 o etholwyr yn cael eu cynrychioli gan 1 cynghorydd. O dan ein cynigion bydd nifer yr etholwyr yn ward Pensarn yn gostwng 10 etholwr i 2,094. Fodd bynnag, nid ydym yn ystyried bod y newid mor sylweddol fel ei fod yn gofyn am ostyngiad yn nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli'r adran etholiadol.

9. CYDNABYDDIAETHAU

9.1 Dymunwn ddiolch i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac i'r Cynghorau Cymuned am eu cymorth ac i bob unigolyn a chorff a gyflwynodd gynrychiolaethau i ni.

10. Y CAMAU NESAF

10.1 Ar ôl cwblhau ein hystyriaeth o'r arolwg o Ffiniau Cymunedol ym Mwrdeistref Sirol Conwy a chyflwyno ein hargymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru, rydym wedi cyflawni ein hymrwymiad statudol o dan y Ddeddf.

10.2 Llywodraeth Cynulliad Cymru fydd nawr yn penderfynu, os gwêl yn dda, p'un ai i'w derbyn neu i orchymyn y Comisiwn i gynnal arolwg pellach.

10.3 Dylid cyfeirio unrhyw gynrychiolaethau eraill ynghylch y materion yn yr adroddiad at Lywodraeth Cynulliad Cymru. Dylid eu gwneud cyn gynted ag y bo modd, a heb fod yn hwyrach na chwe wythnos o'r dyddiad y cyflwynir argymhellion y Comisiwn i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Dylid cyfeirio cynrychiolaethau at:

Y Tîm Democratiaeth
Yr Is-adran Polisi Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

MR P J WOOD (Cadeirydd)

Y PARCH. HYWEL MEREDYDD DAVIES BD (Is-Gadeirydd)

MR D J BADER (Aelod)

E H LEWIS BSc. DPM FRSA FCIPD (Ysgrifennydd)

Chwefror 2009

GWEINIDOGION CYMRU

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 RHAN IV

CYFARWYDDYD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU (ADOLYGIAD O FFINIAU CYMUNEDOL)(BWRDEISTREF SIROL CONWY) 2007

Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r Cyfarwyddyd canlynol i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru trwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 56 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972[1] yr arferir y pwerau hynny bellach gan Weinidogion Cymru[2]:

1. Yn y Cyfarwyddyd hwn:

Ystyr "y Ddeddf " ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972;

Ystyr "y Comisiwn" ("*the Commission*") yw Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru.

2. Yn unol ag adran 56(1) o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal adolygiad o ffiniau cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy er mwyn ystyried a ddylid gwneud y cyfryw gynigion mewn perthynas â'r ardal a adolygir ag yr awdurdodir gan adran 54 o'r Ddeddf a pha gynigion, os oes rhai, i'w gwneud; a rhaid i'r Comisiwn, os gwêl yn dda, lunio'r cynigion hynny yn unol â hynny.

Dr Brian Gibbons

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Dyddiad 16/10/07

---

(1) 1972 c.70; diwygiwyd adran 56 gan Ddeddf Llywodraeth Leol(Cymru) 1994.

(2) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) a drosglwyddodd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Gymru. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Cynulliad wedyn i Weinidogion Cymru gan Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 c.38).

Crynodeb o Gynrychiolaethau a Gafwyd mewn Ymateb i'r Cynigion Drafft

CONWY A LLANDUDNO

Nododd **Cyngor Bwrdeistref Conwy, Iwan Davies, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** y dylai'r ffin ar hyd Heol Ffrith a Heol Pydew aros fel y mae, gan y gallai'r newid arfaethedig beri dryswch. Byddai rhai eiddo ar ochr ogleddol yr heolydd hyn yn cael eu trosglwyddo i Ward Penrhyn a byddant ymhellach i ffwrdd o Fryn Pydew nag eiddo ar ochr ddeheuol yr heol.

Derbyniodd Mr Davies hefyd gynrychiolaeth ar wahân oddi wrth Gynghorydd yn Llandudno ynghylch y ffin i'r dwyrain o Neuadd Bodysgallen. Byddai'r ffin arfaethedig yn cynnwys cae yn sir Conwy sydd ar hyn o bryd yn Llandudno. Nododd Mr Davies fod angen i'r ffin newydd gynnwys PROW (Heol Dramwy Gyhoeddus) 63 yn Llandudno h.y. dylai'r ffin fod i'r de o ffordd y llwybr ar hyd y ffens ac nid ar hyd y wal i'r gogledd.

Nododd **Cyngor Tref Conwy** fod y Cyngor yn parhau i wrthwynebu unrhyw newidiadau i'r ffin. Mynegodd y cyngor eu gofid y byddai'r ffin newydd arfaethedig rhwng wardiau Deganwy a Thudno yn rhedeg yn uniongyrchol y tu ôl i tua 60 cartref yn ward Deganwy, gyda'r ffin bresennol yn rhedeg ar draws cae gwag. Roedd y Cyngor yn teimlo y byddai hyn yn achosi problemau gyda cheisiadau cynllunio posibl. Pe bai ceisiadau cynllunio'n cael eu cyflwyno er mwyn datblygu ar safle'r cae yna byddai'r cais cynllunio'n mynd i Gyngor Tref Llandudno ac nid i Gyngor Tref Conwy, er mai trigolion Deganwy a fyddai'n cael eu heffeithio fwyaf gan unrhyw ddatblygiadau cyfagos posibl.

O ran cynnal a chadw'r llwybrau troed yn ward Pensarn, cafodd y Cyngor ar ddeall na fyddai angen gwaith cynnal a chadw ar unrhyw lwybrau troed sy'n rhedeg drwy'r ardal.

Serch hynny, roedd yn bleser gan y Cyngor nodi bod y Comisiwn wedi cydnabod pwysigrwydd Coedwig Marl i ardal Cyngor y Dref.

Ysgrifennodd **Cyngor Tref Llandudno** fod y newidiadau arfaethedig a ddangosir yn Atodiad D yr adroddiad drafft yn cyd-fynd â dymuniadau'r Cyngor. Byddai'r Cyngor yn gofyn bod safle'r ffin i'r gogledd o'r 'Lloches Ddwyreiniol', y newid arfaethedig yn ward Pensarn, yn cynnwys yr heol dramwy gyhoeddus h.y. dylai llinell y ffens fod yn ffin ddeheuol.

Nododd y Cyngor farn Cyngor Tref Conwy hefyd a gwnaethpwyd y sylwadau canlynol:

- Nid yw'r un o'r ddau Gyngor Tref yn Awdurdod Cynllunio
- Mae'r ardal a effeithir yn hen letem las gyda rhagdybiaeth yn erbyn datblygu
- Nid yw'n anarferol i ffiniau Cymuned neu Ward rhedeg hyd at ffiniau sefydledig eiddo
- Ni fyddai unrhyw newid i ffin yn atal y naill Gyngor Tref rhag gwneud sylw ynghylch ceisiadau cynllunio na gwneud cynrychiolaethau i'r Awdurdod Cynllunio.

Ysgrifennodd y **Cynghorydd P C Evans, Adran Etholiadol Tudno, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy,** i gefnogi cynigion y Comisiwn o ran yr effaith ar Adran Etholiadol Tudno, o achos y rhesymau a nodwyd yn yr Adroddiad. Cytunodd y cynghorydd hefyd gyda'r newid

arfaethedig i ardal Pydew; fodd bynnag, awgrymodd y dylai'r ffin newydd ddilyn llinell y ffens fel bod Heol Dramwy Gyhoeddus 63 yn aros yng Nghymuned Llandudno.

Ysgrifennodd y **Cynghorydd R A Hughes, Adran Etholiadol Tudno, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** yn cefnogi argymhellion y Comisiwn ynghylch rhan Tudno/Deganwy ffin Conwy/Llandudno.

Ysgrifennodd **Cymdeithas y Crwydrwyr, Pwyllgor Cyngor Conwy** yn cefnogi newid ffin arfaethedig y Comisiwn rhwng Cyngor Tref Conwy a Llandudno, gan nodi y byddai'r awgrymiadau'n cynorthwyo'r Gymdeithas wrth iddynt gynnal arolygiadau ac adrodd ar ofynion cynnal a chadw. Maent hefyd yn nodi'r pwyntiau canlynol:

- maent yn weithredol wrth fonitro cyflwr y llwybrau troed yn y ddwy Gymuned er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cynnal a'u cadw mewn modd digonol gan CBS Conwy.
- nid yw'r ffin bresennol yn cyd-fynd â'r modd mwyaf effeithiol o weinyddu a chynnal y rhwydwaith PROW gan fod y llwybrau yn y lleoliad dan sylw ar wahân i weddill y rheini yng Nghymuned Conwy, ond maent yn ffurfio rhan o'r hyn sydd yn ei hanfod yn rhwydwaith Llandudno.

DOLGARROG A THREFRIW

Crynhodd **Cyngor Cymuned Dolgarrog** y sylwadau cyffredinol yn erbyn cynigion y Comisiwn ynghylch Dolgarrog a Threfriw; a gyfunwyd o'r cyfarfodydd cyhoeddus, deiseb y pentref a llythyrau'n gwrthwynebu. Y sylwadau cyffredinol oedd:

- Bod Cynghorwyr Cymuned Dolgarrog yn y broses o weithio'n agos gyda pherchnogion newydd safle'r ffatri ynghylch yr adeilad newydd
- Mae Cynghorwyr Cymuned Dolgarrog wedi cydweithio gyda *Yes Solutions,* perchnogion deg tŷ newydd ar Heol Gwydyr
- Nid yw'r ddau bentref yn debyg
- Byddai'r aruno'n creu gelyniaeth rhwng y ddau bentref
- Byddai'r pentref yn colli ei hunaniaeth

Ysgrifennodd **Elfyn Llwyd, AS Meirionnydd Nant Conwy** i ddweud ei fod o'r farn bendant y dylai Cymunedau Dolgarrog a Threfriw aros fel y maent. Dywedodd hefyd y byddai cyflogwyr newydd a ddenir gan adfywiad Dolgarrog am drafod materion yn ymwneud â Dolgarrog gyda Chyngor Cymuned Dolgarrog yn hytrach nag amalgam o'r ddau gyngor.

Mae Mr Llwyd hefyd yn cydnabod bod y rhan fwyaf o leoedd gwag ar y ddau Gyngor Cymuned wedi'u llenwi.

Ysgrifennodd **Gareth Jones, Aelod Cynulliad Aberconwy** i gefnogi ac ailddatgan cynhennau'r Cynghorydd Emlyn Thomas fel y'u nodir isod. Mae Mr Jones hefyd wedi mynegi ei bryderon at y Gweinidog, Dr Brian Gibbons.

Ysgrifennodd y **Cynghorydd Emlyn Thomas, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** ynghylch cynnig y Comisiwn i aruno Dolgarrog a Threfriw. Amgaewyd adroddiad cryno o farn a gasglwyd mewn cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yn Nolgarrog ar 6 Hydref 2008,

cyfarfod Cyngor Cymuned Trefriw ar 7 Hydref 2008, a barn a gasglwyd oddi wrth drigolion y ddwy gymuned. Mae trigolion Dolgarrog yn gwrthwynebu'r cynigion gan y bydd mwy o fuddsoddiad a gweithgarwch diwydiannol yn Nolgarrog yn golygu y bydd angen i ddatblygwyr "ymgynghori â chyngor cymuned sy'n cynrychioli cymuned Dolgarrog yn unig". Credir bod cynigion y Comisiwn yn peryglu ailddatblygiad cymuned Dolgarrog.

O safbwynt Trefriw, gwelir bod yr aruno'n lleihau effeithiolrwydd a chydlyniad cymuned Trefriw a'i gyngor wrth rannu ei bwerau ar hyd y cymunedau cyfunol newydd. Nodwyd llwyddiannau niferus gweithgareddau cynghorau cymuned Trefriw yn y gorffennol e.e. uwchraddio llwybrau cyhoeddus sy'n cael eu cynnal a'u cadw gan y cyngor a chreu Is-bwyllgor chwaraeon a hamdden newydd. Mae'r cynghorydd Thomas hefyd yn awgrymu bod aelod o'r Comisiwn yn mynychu cyfarfod cyhoeddus a gynhelir yn Nhrefriw ar 22 Hydref 2008.

Ysgrifennodd y **Cynghorydd Rita Jones, Cyngor Cymuned Dolgarrog** i wrthwynebu'n gryf i aruno arfaethedig Cynghorau Cymuned Dolgarrog a Threfriw, gan nodi y byddai Dolgarrog yn colli ei gynrychiolaeth ar y cyngor cymuned newydd. Nododd y Cynghorydd Jones hefyd fod Dolgarrog yn y broses o greu amgueddfa am Drychineb yr Argae, a bod rheolaeth dros y ganolfan yn perthyn i drigolion Dolgarrog, a fyddai'n cael ei cholli pe bai'r ddwy gymuned yn aruno. Nododd y Cynghorydd Jones hefyd bod gan bentref Dolgarrog gynlluniau adfywio ar gyfer y dyfodol, ac mae'n bosibl y cânt eu cyfaddawdu o achos y diffyg cynrychiolaeth a diffyg diddordeb posibl y cyngor cyfunol o ran materion 'Dolgarrog'.

Ysgrifennodd y **Cynghorydd C Jones, Cyngor Cymuned Dolgarrog** at y Comisiwn fel un o drigolion Dolgarrog er mwyn mynegi ei gofidiau y byddai'r aruno arfaethedig rhwng Dolgarrog a Threfriw yn peri i Bentref Dolgarrog golli ei gynrychiolaeth yn y Cyngor Cymuned cyfunol newydd.

Ysgrifennodd y **Cynghorydd David Williams, Cyngor Cymuned Dolgarrog** i wrthwynebu'r aruno rhwng Cynghorau Cymuned Dolgarrog a Threfriw'n gryf. Mae'r Cynghorydd Williams yn nodi nad yw'r problemau a wynebir gan Gymuned Dolgarrog ynghylch llenwi Seddi ar y Cyngor yn unigryw i'r cyngor ac nid ydynt yn rheswm teilwng dros aruno a fyddai'n achosi mwy o broblemau yn ei farn ef.

Ysgrifennodd y **Cynghorydd J Butters, Cyngor Cymuned Trefriw** i ddweud ei bod hi o'r farn y byddai cynnig y Comisiwn i aruno Trefriw a Dolgarrog yn niweidiol. Nid yw'r Cynghorydd Butters yn cytuno â rhesymau'r Comisiwn sy'n sail i'r dewis hwn, sef bod diffyg seddi llawn ar y Cyngor ac nad oedd y Cyngor yn gwbl weithredol. Nododd y Cynghorydd Butters ei bod yn cymryd nifer o fisoedd i lenwi seddi a bod y Cyngor yn weithredol a bod llawer yn mynychu'r cyfarfodydd.

Ysgrifennodd **Cyfeillion Ysgol Dolgarrog,** sy'n cynrychioli plant a rhieni'r sawl sy'n mynychu Ysgol Dolgarrog, i wrthwynebu'r aruno. Y prif ofid a nodwyd oedd pe byddai'r rhieni neu fwrdd yr ysgol yn gofyn am rodd neu unrhyw arian arall ar gyfer yr ysgol, yna byddai diffyg cynrychiolaeth deg ar gyfer buddiannau Dolgarrog ar y cyngor cyfunol newydd yn arwain at esgeuluso ceisiadau o'r fath.

Ysgrifennodd **un o'r trigolion a chyn Gynghorydd Sir a Dosbarth** i wrthwynebu aruno Dolgarrog a Threfriw, gan nodi bod y cynghorau'n cynnal eu cyfarfodydd mewn cyfryngau

gwahanol. Roedd Cofnodion a Chyfarfodydd yn Nhrefriw yn cael eu cynnal yn y Gymraeg, tra bo'r rheini yn Nolgarrog yn cael eu cynhyrchu a'u cynnal yn y Saesneg. Yn y lle cyntaf roedd Dolgarrog yn dymuno chwalu'r Cyngor Cymuned o achos safon y gwasanaethau yr oedd yn eu derbyn gan Gyngor Conwy.

Mae'n awgrymu hefyd os dylid ystyried aruno, byddai'n ddewis mwy dichonadwy aruno â phentref Tal-y-bont sydd ond yn hanner milltir i ffwrdd.

Ysgrifennodd **un o drigolion Dolgarrog a chyn Gynghorydd Cymuned** i wrthwynebu'r aruno a gynigwyd rhwng Cyngor Dolgarrog a Threfriw. Mae'r Cyngor wedi gweithio'n galed i gadw'r pentref mewn cyflwr da ac wedi prynu hen glinig a'i droi'n ganolfan gymunedol. Awgrymodd hefyd bod y Comisiwn yn cyfarfod â Chyngor Cymuned Dolgarrog er mwyn trafod y cynnig.

Ysgrifennodd **Rheolwr Gyfarwyddwr Ainscough-Johnston** (busnes cyllid tir, eiddo a datblygu strategol) er mwyn nodi bod ei gwmni wedi ymrwymo i fuddsoddiad parhaus yn adfywiad hir dymor pentref Dolgarrog drwy brynu hen Ffatri Alwminiwm Dolgarrog. Gwelodd y gallai aruno arfaethedig cymunedau Dolgarrog a Threfriw effeithio'n ormodol ar ymdrechion Dolgarrog i greu amgylchedd sy'n gynaliadwy yn economaidd ac yn ddeniadol wrth wneud eu hachos yn ail i rai pentrefi eraill yn yr ardal. Mae'n awgrymu hefyd bod "y pentref a'i bobl yn gallu gweithredu'n annibynnol er mwyn hyrwyddo newid trawsnewidiol" gan fod angen i'r pentref "i gyflawni tu hwnt i bob disgwyl yn nhermau denu buddsoddiad sydd wir ei angen arno".

Ysgrifennodd **cyfarwyddwr busnes lleol** i wrthwynebu aruno Trefriw a Llanrhychwyn â Chyngor Cymuned Dolgarrog gan nodi bod y ddau bentref yn wahanol iawn a bod gan y ddau gyflenwad llawn o Gynghorwyr yn eu Cynghorau Cymuned.

Ysgrifennodd **gŵr busnes lleol ac un o drigolion Trefriw** i wrthwynebu cynnig y Comisiwn i aruno Cynghorau Cymuned Trefriw a Dolgarrog. Nododd ddiffyg agosrwydd rhesymol y ddwy gymuned fel rheswm yn erbyn yr aruno yn ogystal â diffyg ffocws cyffredin y cymunedau. Nid yw trigolion yr un gymuned yn defnyddio cyfleusterau ei gilydd, gyda thrigolion Trefriw yn ffafrio defnyddio cyfleusterau siopa Llanrwst a'r rheini yn Nolgarrog yn ffafrio defnyddio'r rheini yng Nghyffordd Llandudno.

Ysgrifennodd **un o drigolion Trefriw** i wrthwynebu cynnig y Comisiwn i aruno Trefriw a Dolgarrog gan fod y ddau bentref yn gymunedau ar wahân ac unigryw. Nododd hefyd y byddai'r pellter rhwng y ddwy gymuned yn golygu y byddai'n rhaid i gynghorwyr deithio i'r cyfarfodydd, gan greu "costau ariannol ac amgylcheddol". Gallai hyn hefyd olygu y bydd llai o bobl yn dymuno gwasanaethu ar y cyngor pe bai'r swydd yn golygu mwy o deithio.

Ysgrifennodd **un o drigolion Pant Du, Trefriw** at y Comisiwn yn gwrthwynebu cynigion i gyfuno cymunedau Dolgarrog a Threfriw gan nodi y byddai diffyg llwybr diogel i gerddwyr rhwng y ddwy gymuned yn ffurfio rhwystr.

Trigolion Trefriw - Derbyniwyd **14** cynrychiolaeth gan drigolion cyffredinol Trefriw, pob un ohonynt yn erbyn cynigion y Comisiwn. Dyma'r pwyntiau a nodwyd yn erbyn cynigion y Comisiwn i aruno Trefriw a Dolgarrog:

- … Mae Cymunedau Dolgarrog a Threfriw yn rhy amrywiol, gyda diddordebau amrywiol tebyg, i gael eu cynrychioli'n deg gan Gyngor Cymuned unigol

- … Mae trigolion am gadw hunaniaeth eu Cymunedau priodol
- … Mae'r ddwy gymuned yn ynysig ac ar hyn o bryd nid oes ganddynt lawer i'w wneud â'i gilydd.
- … Y pellter daearyddol rhwng y ddwy gymuned
- … Byddai dosbarthiad anghyfartal y seddi ar Gyngor y Gymuned, sydd â thuedd o blaid Trefriw, yn golygu y byddai Dolgarrog yn cael ei dangynrychioli ym materion y Cyngor, ac y byddai buddiannau Cymuned Dolgarrog yn cael eu hesgeuluso
- … Gallai Cyngor Cymuned mwy arwain at fwy o fiwrocratiaeth / gweithdrefnau gweinyddol, a allai arafu "gwaith hanfodol pentrefi unigol", gan gael effaith fwyfwy niweidiol ar y pentrefi hynny sydd eisoes ar gyrion cynllun cyfredol y cyngor

Trigolion Dolgarrog - Derbyniwyd 16 cynrychiolaeth gan drigolion cyffredinol Dolgarrog, ac eto roedd pob un ohonynt yn erbyn cynigion y Comisiwn. Dyma'r pwyntiau pwysicaf i'w nodi:

- … Ar hyn o bryd mae gan Gymunedau Dolgarrog a Threfriw Gynghorau Cymuned sy'n gwbl weithredol, na fyddai'n elwa wrth aruno
- … .Praesept Dolgarrog sy'n talu am forgais Canolfan Porthlwyd (Canolfan Gymunedol). Nid oes unrhyw sicrwydd y byddai hynny'n parhau o dan yr aruniad arfaethedig, a gallai olygu y byddai Dolgarrog yn colli'r adnodd hwn sy'n hanfodol i'r gymuned
- … Bydd ailddatblygu'r gweithfeydd alwminiwm yn arwain at adfywiad ac mae'n hollbwysig bod Dolgarrog yn cadw ei Gyngor Cymuned fel bod yr ailddatblygiad yn gaffaeliad i'r pentref
- … Siaradwyr Saesneg yn bennaf yw trigolion Dolgarrog, ac mae'r rheini yn Nhrefriw yn dueddol o siarad Cymraeg. Amlygwyd hyn mewn cynrychiolaeth flaenorol gan fod y ddwy gymuned ar hyn o bryd yn cynnal eu Cyfarfodydd Cyngor mewn ieithoedd gwahanol, rheini yn Nhrefriw yn y Gymraeg a rheini yn Nolgarrog yn Saesneg
- … Eto, codwyd tuedd seddi'r Cyngor o blaid Trefriw gan arwain at tan-gynrychiolaeth i Ddolgarrog ym materion y Cyngor
- … Mae Dolgarrog yn lle â chymdeithas fywiog amrywiol a allai ddioddef o achos yr aruniad wrth i Ddolgarrog golli ei unigoliaeth a'i hunaniaeth
- … Ffefrir aruniad rhwng Dolgarrog a Thal-y-bont gan eu bod yn agosach yn ddaearyddol ac yn rhannu'r un cyfleusterau e.e. Ysgol Dolgarrog

Ysgrifennodd **9 o Drigolion Trefriw, pro-forma Math 1** i wrthwynebu cynigion y Comisiwn i aruno cymunedau Trefriw a Dolgarrog gan nodi bod gan y ddwy gymuned hunaniaeth arbennig ac ar wahân, a bydd cadw'r cynghorau unigol yn cynnal yr hunaniaethau hyn. Nodwyd hefyd o achos cynnydd rhagweledig ym mhoblogaeth Dolgarrog y byddai'n arwain at newidiadau yn y mantolenni ar y cyd Gyngor Cymuned arfaethedig. Ac yn olaf mae'r pro-forma'n nodi bod gan Drefriw gyfenwad llawn o Gynghorwyr, sy'n negyddu prif reswm y Comisiwn dros aruno'r cymunedau.

Ysgrifennodd **69 o Drigolion Trefriw, pro-forma Math 2** i wrthwynebu cynigion y Comisiwn i aruno cymunedau Trefriw a Dolgarrog yn gryf, gan nodi bod y cymunedau'n wahanol iawn ac y gallai'r aruno achosi i fuddiannau wrthdaro. Roedd y llythyr hefyd yn nodi bod gan y ddwy gymuned gyflenwad llawn o Gynghorwyr ar eu Cynghorau Cymuned.

Deiseb a lofnodwyd gan 41 o drigolion Trefriw - rhoddwyd i'r Dirprwy Ysgrifennydd pan fynychodd gyfarfod Cyngor Cymuned Trefriw 22/10/08. Teitl y ddeiseb oedd "Hoffem ni sydd wedi arwyddo isod wrthwynebu aruniad arfaethedig Cynghorau Cymuned Trefriw a Dolgarrog".

Deiseb a lofnodwyd gan 223 o drigolion Dolgarrog - teitl y ddeiseb oedd "Hoffem ni sydd wedi arwyddo isod aros yn Gyngor cymuned annibynnol a adwaenir fel CYNGOR CYMUNED DOLGARROG."